# Crynodeb Gweithredol: Hunanasesiad o Berfformiad, 2023 i 2024

Ynghyd â'n hadroddiad diweddaru chwarterol ar gyfer 2023 i 2024 a ddefnyddiwyd fel ein hasesiad parhaus drwy gydol y flwyddyn, mae'r ddogfen hon yn llunio ein Hunanasesiad o Berfformiad sy'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'n cyflwyno crynodeb diwedd blwyddyn hwylus o'n perfformiad o gymharu â'n swyddogaethau allweddol, yn benodol, ein Hamcanion Lles (sydd hefyd yn cael eu galw'n Flaenoriaethau Corfforaethol), y saith maes llywodraethu a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (sy'n cynnwys y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol newydd). I adolygu'r dystiolaeth y tu ôl i gasgliadau'r ddogfen hon, trowch at yr Adroddiadau Diweddaru ar Berfformiad sydd ar ein gwefan.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Cynnwys


Cynnwys ..... 2

Ein Dull Hunanasesu ..... 4

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ..... 5

Ar y cyfan, pa mor dda ydym ni’n gwneud? ..... 6

Amcanion Perfformiad – Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027 ..... 8

Swyddogaethau Llywodraethu – Iechyd Corfforaethol y Cyngor ..... 11

# Manylion cyswllt a gwybodaeth bellach

Am fwy o wybodaeth, neu i roi eich barn am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni:

**Drwy e-bost:** timcynlluniostrategol@sirddinbych.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01824 706291

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg.

**Drwy'r post:**

Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad,
Cyngor Sir Ddinbych,
Blwch Post 62,
Rhuthun,
LL15 9AZ

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg.

## I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Dilynwch ni ar Twitter

Ewch i wefan y Cyngor i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i Borth Sgwrs y Sir a chofrestrwch ar gyfer *Y Panel!*

Tanysgrifiwch i Newyddlen Llais y Sir

## Ein Dull Hunanasesu

Mae ein dull hunanasesu’n dilyn yr un un a ddefnyddiwyd ar gyfer y flwyddyn gyntaf yr oedd angen un yn gyfreithiol, yn 2020 i 2021. Rydym wedi parhau i ddefnyddio arddull newydd ar gyfer yr Adroddiad Diweddaru ar Hunanasesiad o Berfformiad – un sy’n ymateb i ofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac yn rhoi ystyriaeth i Iechyd Corfforaethol y sefydliad. Mae ein Hadroddiadau Diweddaru ar Berfformiad yn cael eu cyhoeddi ar-lein ac maent yn cynnwys dadansoddiad o’r saith maes llywodraethu a argymhellir yng nghanllawiau statudol y Ddeddf, yn ogystal â pharhau i restru gweithgarwch ein prif gyfarfodydd (y Cyngor, y Cabinet, Craffu a Llywodraethu ac Archwilio), prif eitemau newyddion ac adroddiadau gan ein hadran archwilio fewnol a rheoleiddwyr allanol. Mae’r Crynodeb Gweithredol hwn yn dod â chrynswth yr adroddiadau ynghyd, gyda throsolwg beirniadol o’n perfformiad, i ba raddau mae ein perfformiad yn creu canlyniadau cadarnhaol a pha mor dda mae ein trefniadau llywodraethu’n cefnogi gwelliant parhaus. Mae’r crynodeb hwn hefyd yn edrych tua’r dyfodol ar gyfleoedd a heriau allweddol.

Mae’n ofynnol i’r Cyngor nodi camau gwella yn ei broses hunanasesu, a darparu’r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd arnynt mewn adroddiadau hunanasesu dilynol. Rydym ni wedi gwneud hyn drwy ein Hadroddiadau Diweddaru ar Berfformiad (yn cefnogi’r egwyddor o asesu parhaus), sydd wedi dod o hyd i gamau gwella wrth eu llunio. Ailddechreuodd rhaglen Herio Perfformiad Gwasanaethau’r Cyngor eleni a chafodd ei chynnwys yn yr adroddiadau Diweddaru. Mae gennym ni gasgliad mawr o dystiolaeth dda ynghlwm â’n perfformiad fel Cyngor, sydd wedi’i gofnodi’n gynhwysfawr yn ein Hadroddiadau Diweddaru Chwarterol ar Hunanasesiad o Berfformiad. Y rhain yw ein hunanasesiad parhaus. Eleni, oherwydd adnoddau a chapasiti, lluniwyd tri adroddiad chwarterol ar gyfer y cyfnodau o Ebrill i Fehefin 2023, Gorffennaf i Medi 2023, a Hydref 2023 i Mawrth 2024.

Rhwng Medi 2023 a Chwefror 2024, cyhoeddodd y Cyngor ei ‘Arolwg Budd-ddeiliaid’ am y trydydd tro, a chafwyd 494 o ymatebion. Yn seiliedig ar yr amcangyfrif poblogaeth o 96,550, mae’r ymateb yn fwy na’r ‘sampl delfrydol’, sef rhwng 267 a 383. Mae dadansoddiad o’r canlyniadau diweddaraf i’w weld yn ein Hadroddiad Diweddaru ar Hunanasesiad o Berfformiad ar gyfer cyfnod Hydref 2023 i Fawrth 2024.

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae’r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys ein hamcanion cydraddoldeb a lles, ac mae’r rhain yn cael eu trafod yn ein hadroddiadau chwarterol. Hefyd, mae ein blaenoriaethau’n cyd-fynd yn gyffredinol â’r amcanion sector cyhoeddus rhanbarthol arfaethedig a’r heriau cenedlaethol a gyhoeddwyd yn [adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ‘Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2023: A yw Cymru’n Decach?]() a luniwyd ym mis Tachwedd 2023.

Hyd at fis Chwefror 2024, roedd Bwrdd Sir Ddinbych sy’n Decach, Diogel a Mwy Cyfartal yn cael yr adroddiadau hyn ac yn monitro materion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn dilyn newidiadau i’r Cynllun Corfforaethol, fe wnaethom wella cylch gwaith y Grŵp Strategol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i gynnwys trosolwg o’r holl faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, gan ddod â Bwrdd Sir Ddinbych sy’n Decach, Diogel a Mwy Cyfartal i ben ym mis Mawrth 2024.

Yn ystod y flwyddyn mae’r Grŵp Strategol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, sy’n cael ei gadeirio gan yr Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol, wedi cytuno ar gynnwys yr adroddiadau strategol ar y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus a’r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau; wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am Bolisi Menopos y Cyngor; wedi cymeradwyo casglu rhestr gynhwysfawr o sefydliadau sy’n cefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig neu’r rhai sy’n byw ag anfanteision economaidd-gymdeithasol yn y sir, yn cynnwys grwpiau na chlywir ganddynt yn aml, fydd yn cael ei adolygu bob chwe mis. Drwy ddefnyddio’r rhestr hon, gallwn gryfhau ein gwaith ymgysylltu a chyfathrebu a sicrhau canlyniadau tecach i bobl, yn cynnwys lleihau anghydraddoldebau sy’n gysylltiedig â thlodi. Mae’r Grŵp hefyd wedi ystyried ansawdd Asesiadau o Effaith ar Les a sut cawsant eu cwblhau (er enghraifft, asesiad o effaith y Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb); trafod sut y gellir ymgorffori Cynlluniau Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb (sef y Cynllun Gweithredu LHDTC+ eleni) i fusnes y Cyngor; a chytuno ar ymateb y Cyngor i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol drafft 2024 i 2028.

Er nad yw’r Grŵp Strategol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn gorff sy’n gwneud penderfyniadau, gall gyfeirio materion a gwneud argymhellion i bwyllgorau a grwpiau perthnasol fel bo angen. Un o’r argymhellion oedd bod y Cyngor Sir yn ystyried cynnwys cydraddoldeb fel modiwl e-ddysgu gorfodol i aelodau (mae eisoes yn orfodol i

swyddogion). Felly mae’r Grŵp yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i aelodau ym mis Ebrill 2024.

Yn hydref 2024, bydd ein Grŵp Strategol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ystyried adroddiad yn edrych ar effaith cynigion y gyllideb hyd yma, eu heffaith o safbwynt cydraddoldeb ac amrywiaeth (o ran effaith ar y gymuned ac effaith ar staff).

Cafodd y tudalennau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ar wefan y Cyngor eu diweddaru ym mis Mawrth 2024, i gynnwys demograffeg y sir, gyda data a gasglwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn ymwneud â Chyfrifiad 2021.

## Ar y cyfan, pa mor dda ydym ni’n gwneud?

Y flwyddyn ddiwethaf hon oedd y flwyddyn anoddaf i’r Cyngor yn ariannol - a bu’n rhaid i’r aelodau a’r swyddogion wneud penderfyniadau anodd iawn i sicrhau ein bod yn mantoli’r gyllideb wrth ystyried effaith ein penderfyniadau ar y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae’r adran hon yn crynhoi ein perfformiad a’n prosesau llywodraethu dros y flwyddyn mewn ambell sylw am ein cryfderau a’n gwendidau, a chyfleoedd a heriau.

- Yn ystod y flwyddyn rydym wedi ymateb i’r pwysau ariannol sy’n wynebu pob awdurdod lleol, a hynny’n gyfrifol; rydym wedi defnyddio ein hadnoddau’n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; mae ein trefniadau llywodraethu’n gweithredu ac yn effeithiol; ac mae ein pwyslais ar sicrhau’r canlyniadau gorau posib’ i’n hamgylchedd a’n cymunedau yn Sir Ddinbych.
- Mae ein hymdrechion i ymgysylltu’n weithredol â’n haelodau a staff o’r sefydliad cyfan am y gyllideb wedi bod yn dda ac wedi cael eu derbyn yn gadarnhaol. Rydym eisoes yn gweithio ar ein dull o gyflwyno cyllideb 2025 i 2026 i sicrhau y gallwn feithrin ymgysylltiad a dealltwriaeth gwell byth, wrth olrhain yr arbedion rydym eisoes wedi ymrwymo iddynt. Ein dull yw bod yn addasol a gwneud mwy o’r hyn sy’n gweithio orau.
- Mae ein trefniadau llywodraethu’n gweithio’n dda ac yn ymatebol - mae hyn yn amlwg drwy’r Craffu ychwanegol sydd wedi cael ei roi ar waith, ar gais yr aelodau, o ran agweddau o’n cynigion ar y gyllideb.
- Mae’r her yn parhau i sicrhau bod rhai ar y meinciau cefn yn parhau i deimlo’n rhan o’r broses gwneud penderfyniadau ar y gyllideb ac o ran cyflawni’r Cynllun Corfforaethol dros y blynyddoedd nesaf. Fel y rhagwelwyd yn yr Hunanasesiad y

llynedd, gofynnwyd i aelodau wneud penderfyniadau fwy a mwy anodd dros gyllid a darparu gwasanaethau. Mae'r aelodau wedi ymateb i'r her ac wedi ystyried camau annymunol ond pragmatig yn aml i sicrhau ein bod yn gallu mantoli'r gyllideb wrth geisio lleihau cymaint ag y gallwn ar yr effeithiau negyddol ar les amgylcheddol a'r gymuned.

- Drwy'r Cynllun Corfforaethol a gwaith y Bwrdd Cyngor sy'n cael ei Gynnal yn Dda rydym yn cymryd bob cyfle i wireddu ein gwerthoedd a'n hegwyddorion. Rydym yn awdurdod sy'n dysgu ac yn myfyrio arno'i hun ac er ein bod wedi gorfod ystyried a gweithredu penderfyniadau anodd ar y gyllideb, mae arnom eisiau gwneud y mwyaf o'r ddealltwriaeth gynyddol o'n diwylliant, yr hyn mae'n ei olygu i fod yn rhan o "deulu Sir Ddinbych" a hyrwyddo ein dull Un Cyngor. Bydd ein hegwyddorion a'n gwerthoedd yn ein rhoi mewn sefyllfa dda. Yn ystod y flwyddyn nesaf, rydym eisiau sefydlu rhaglen barhaus o sgyrsiau rhwng gwasanaethau a gwneud y mwyaf o hyder cynyddol aelodau a swyddogion i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ac yn ffurfiol yn ystod busnes y Cyngor.
- Mae'r strwythur uwch arweinyddiaeth newydd bellach yn ei le ac yn gweithio'n dda. Er bod capasiti llai yn broblem wrth i'r gweithlu grebachu, mae cyfleoedd cynyddol i ystyried ffyrdd newydd trawsnewidiol o weithio. Mae'r hyn a ystyrid yn flaenorol yn fylchau lle nad oedd ffordd glir ymlaen wedi'i chytuno arni, megis o ran potensial ddiwylliannol a threftadaeth Sir Ddinbych, bellach wedi dechrau cael eu datrys. Rhaid i ni ymdrechu i fod yn hyblyg wrth gydnabod rhwystrau rhag symud ymlaen a'u datrys; a sicrhau ein bod yn parhau'n gadarn wrth i'n capasiti leihau.
- Er bod y Cyngor yn parhau i wynebu rhai problemau recriwtio a chadw, mae'r pwysau ariannol sy'n wynebu pob Cyngor wedi golygu bod yn rhaid i'r Cyngor gymryd camau gweithredu yn ystod y cyfnod i leihau gwariant, yn cynnwys rhoi trefn reoli swyddi gwag ar waith. Roeddem yn dal i allu recriwtio mewn rhai meysydd hanfodol megis Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Plant, ond mae'r swyddi gwag yn parhau yn y gwasanaethau hyn. Er ein bod yn parhau i chwilio am gyfleoedd i leihau pwysau yn y gweithlu, rydym yn wynebu cyfyngiadau oherwydd bod gennym lai o gapasiti ac adnoddau. Mae mwy o fanylion yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022 i 2023 (cyhoeddir adroddiad 2023 i 2024 yn fuan).
- Datblygiad pwysig eleni yw bod y rhaglen Herio Perfformiad Gwasanaethau wedi ailddechrau, gan arwain at well perfformiad o ran cwblhau cyfarfodydd un i un. Yn y dyfodol (ac wrth ymateb i'r argyfwng presennol), mae'n debyg y bydd Heriau 2024 i

2025 yn canolbwyntio ar gyllid a thrawsnewid. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at ein Hasesiad gan Gymheiriaid cyntaf erioed, fydd yn digwydd yn hydref 2024. Bydd llwyddiant yr Asesiad yn dibynnu ar ein gallu i'w lywio i fodloni anghenion y Cyngor ac mae'r gwaith eisoes ar y gweill rhwng swyddogion, aelodau a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## Amcanion Perfformiad – Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027

### Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sy'n bodloni anghenion pobl

Llinynnau mesur: Derbyniol
Prosiectau: Profi Rhwystrau

Mae Bwrdd Tai a Digartrefedd y Cynllun Corfforaethol yn parhau i oruchwylio'r thema hon ac yn ddiweddar mae wedi adolygu'r Strategaeth Tai a Digartrefedd, oedd â mân broblemau o ran llithriant yn yr amserlen, yn bennaf oherwydd ein bod yn aros am arweiniad Perygl Llifogydd newydd gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio ar ddatblygu Model Hyfywedd Datblygu, fydd yn sail i'r gwaith o adolygu'r dull a'r trothwyon presennol ar gyfer gofynion tai fforddiadwy ym mholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae ein Rhaglenni Gwaith Cyfalaf yn dal i gael eu cyflawni ond mae costau cynyddol yn effeithio ar faint y gwaith o ran fforddiadwyedd. Mae cyllidebau'n cael eu monitro'n ofalus a rhaglenni gwaith yn cael eu diwygio a'u blaenoriaethu fel bo'n briodol. Lansiodd Llywodraeth Cymru Safonau Ansawdd Tai Cymru ym mis Hydref 2023, a bydd mesurau newydd yn cael eu cyflwyno o 1 Ebrill 2024; rydym yn parhau i ystyried eu goblygiadau, cyn iddynt gael eu cyflwyno. Cynyddodd nifer y bobl ar y gofrestr Un Llwybr Mynediad at Dai i 1,706 yn y cyfnod hwn, ac mae'n parhau i beri pryder. Fodd bynnag, fe lwyddom i sicrhau 25 o dai cyngor ychwanegol i bobl yn Sir Ddinbych erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

### Sir Ddinbych ffyniannus

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer Gwella
Prosiectau: Ar y trywydd iawn

Mae statws y llinynnau mesur ar gyfer y thema hon wedi cael ei chrynhoi fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Fodd bynnag, dylid nodi bod y rhain yn cynnwys dangosyddion cyffredinol a hirdymor megis y rhai o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ac ymateb i arolygon budd-ddeiliaid. Gan gydnabod yr heriau economaidd lleol a byd-eang y mae'n eu hwynebu, mae'r Cyngor yn datblygu Strategaeth Economaidd (o fis Ebrill 2024) i gynnwys

cynlluniau twf economaidd gwyrdd, gwledig a threfol yn ogystal â datblygu twristiaeth. Dylai'r Strategaeth Economaidd newydd ystyried arlwy ddiwylliannol y sir a sut mae'n cyfrannu at ganlyniadau economaidd a lles ehangach.

## Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar

Llinynnau mesur: Derbyniol
Prosiectau: Ar y trywydd iawn

Ar y cyfan, mae statws y llinynnau mesur ar gyfer y thema hon yn ‘Dderbyniol’. ‘Blaenoriaeth  ar gyfer Gwella’ yw nifer yr ysgolion sy’n cyflawni statws deall trawma - er bod mwy o ysgolion yn gweithio tuag ato - a chanran y budd-ddeiliaid sy’n cytuno y gallant fyw’n ddiogel, yn hapus ac annibynnol yn Sir Ddinbych. Mae’r gostyngiad yn y canran blynyddol o asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn o fewn yr amserlenni statudol yn golygu bod y llinyn mesur hwn yn parhau’n ‘Flaenoriaeth ar gyfer Gwella’. Cyflawnir rhagoriaeth mewn diogelu oedolion a gofal cymdeithasol drwy ddarparwyr micro, ac mae’r statws wedi’i uwchraddio i ‘Da’ ar gyfer canran y budd-ddeiliaid sy’n cytuno bod gan Sir Ddinbych y seilwaith cymdeithasol sydd ei angen i gefnogi lles personol a chymunedol. Mae mynediad at gyngor a chymorth yn parhau i gael ei ddarparu drwy Un Pwynt Mynediad a Phwyntiau Siarad ac yn galonogol, ni fu’n rhaid cyfeirio 92% o ddinasyddion oedd yn cael cymorth drwy Bwyntiau Siarad at Ofal Cymdeithasol i Oedolion rhwng Ionawr a Mawrth 2024. Rydym bellach yn monitro’r troseddau casineb yn Sir Ddinbych y mae Heddlu Gogledd Cymru yn cael gwybod amdanynt. Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth, rhoddwyd gwybod iddynt am 34 trosedd casineb, y mwyafrif yn rhai hiliol.

## Sir Ddinbych sy’n dysgu a thyfu

Llinynnau mesur: Derbyniol
Prosiectau: Profi Rhwystrau

Ar y cyfan, mae'r llinynnau mesur yn y thema hon yn ‘Dderbyniol’, ond rydym yn aros tan ddiwedd y flwyddyn academaidd i gael darlun ehangach o’r data’n ymwneud ag ysgolion. ‘Blaenoriaeth ar gyfer Gwella’ yw canran y rhai sy’n gadael gofal oedd yn ddigartref yn ystod y flwyddyn, sydd wedi codi i 17%. Mae canran y rhai sy’n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 11, nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant hefyd yn peri pryder. Ar gyfer 2023 i 2024, mae ffigwr Sir Ddinbych, sef 2.4.%, yn uwch na 17 o’r 21 awdurdod lleol arall yng Nghymru. Mae’r gefnogaeth a roddir i hyrwyddo datblygiad plant yn y

blynyddoedd cynnar wedi parhau i gryfhau, gyda chyfraddau rhagorol o blant yn cymryd rhan yn y cynnig gofal plant a pherfformiad rhagorol parhaus i gefnogi plant i fynd i'r ysgol feithrin. Mae prosiectau'n ymwneud â datblygiad plant yn y blynyddoedd cynnar yn dal i ddatblygu'n dda, wrth i Dechrau'n Deg 'Ar y Trywydd Iawn' gael ei ymestyn, yn ogystal â chwblhau dau brosiect arall. Tra bod nifer yr ysgolion sy'n darparu addysg drwy addasrwydd a chategorïau cyflwr C a D yn 'Rhagorol', mae'r Rhaglen Moderneiddio Addysg yn parhau mewn perygl oherwydd yr oedi gyda'r gwaith. Erbyn mis Ionawr 2024, roedd y cynnig o brydau ysgol am ddim ar gael i bob disgybl cynradd yn Sir Ddinbych.

## Sir Ddinbych mwy gwyrdd

Llinynnau mesur: Derbyniol
Prosiectau: Profi Rhwystrau

Bydd y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn cael ei hadolygu a'i diweddaru bob tair blynedd; dechreuodd hyn yn 2023 i 2024. Mae yna nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu defnyddio i farnu perfformiad y Cyngor o ran cyflawni ei nodau ar gyfer 2030, gan gynnwys: lleihau'r allyriadau carbon mae'r Cyngor yn eu rhyddhau o ffynonellau amrywiol, cynyddu faint o garbon sy'n cael ei ddal a'i storio ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno, yn ei brydlesu ac yn ei reoli a chynyddu cyfoeth y rhywogaethau ar y tir y mae'r Cyngor yn berchen arno, yn ei brydlesu ac yn ei reoli. Er ein bod ar y trywydd cywir, nid yw'r cyflymder ar hyn o bryd yn awgrymu bod digon o gynnydd yn cael ei wneud er mwyn bodloni'r nod o fod yn Gyngor di-garbon net erbyn 2030. Bydd y pwysau ariannol y mae pob awdurdod lleol yn eu hwynebu ar hyn o bryd a thros y blynyddoedd i ddod yn parhau i gael effaith ar y cyflymder. Rydym yn bwriadu cynnal ein huchelgais o ran Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol, a pheidio ag addasu targedau, er bod hynny'n her, wrth i ni symud ymlaen i dair blynedd nesaf ein strategaeth. Prosiect allweddol ar gyfer y thema hon yw cyflwyno system ailgylchu newydd ym mis Mehefin eleni i'n helpu i fodloni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70% (y targed a osodwyd i bob awdurdod lleol yng Nghymru).

## Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer Gwella
Prosiectau: Ar y trywydd iawn

Mae'r Bwrdd Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda yn setlo i'w waith o feithrin a sicrhau llywodraethu da a diwylliant 'un Cyngor' cadarnhaol. Mae gan y Bwrdd rôl gynyddol mewn

nifer o feysydd allweddol; yn cynnwys hunanasesiadau blynyddol, heriau o ran perfformiad gwasanaethau a'r Asesiad Perfformiad Panel dan arweiniad cymheiriaid. Dywedir bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio llawer iawn mwy yn ffurfiol mewn cyfarfodydd pwyllgorau, ac yn anffurfiol ym musnes bob dydd y Cyngor. Mae'r Bwrdd yn awyddus i fanteisio ar yr hyder cynyddol i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r dirywiad cyffredinol yn yr ymatebion cadarnhaol i'n harolwg i fudd-ddeiliaid wedi dod â statws cyffredinol ein llinynnau mesur i lawr o 'Dderbyniol' i 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Nid yw'r dirywiad yn syndod o ystyried yr hinsawdd ariannol anodd a'r cynigion ar gyfer arbedion mae'r Cyngor wedi ymgynghori arnynt yn ddiweddar ac wedi dechrau eu gweithredu.

## Swyddogaethau Llywodraethu – Iechyd Corfforaethol y Cyngor

Mae datganiad llywodraethu blynyddol Sir Ddinbych yn pwysleisio cryfderau penodol a meysydd i'w gwella. Roedd datganiad 2022 i 2023 yn adeiladu ar y camau gwella a nodwyd yn 2021 i 2022 sy'n gysylltiedig â'n swyddogaethau llywodraethu, fel capasiti a gwytnwch y gweithlu, cod ymddygiad, caffael a rheoli contractau, cyllid a rhannu pryderon. Bydd ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2023 i 2024 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2024.

### Cynllunio Corfforaethol

Mae'r adran hon yn edrych ar sut mae'r Cyngor yn gosod ei amcanion strategol ac yn eu cyflawni. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hon, bu'n rhaid i'r Cyngor gymryd camau sylweddol oherwydd y pwysau ariannol sylweddol a'r pwysau o ran capasiti, i ailymweld ac adolygu ei Amcanion Lles a Chydraddoldeb, wrth sicrhau ei fod yn parhau i fodloni ei ofynion deddfwriaethol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2011. Cafodd Cynllun Corfforaethol diwygiedig, oedd yn lleihau nifer y themâu o naw i chwech, ei gymeradwyo'n unfrydol gan y Cyngor Sir ym mis Chwefror 2024. Dylid nodi hefyd bod y Cyngor eleni wedi cael adroddiad ffafriol gan Archwilio Cymru am y ffordd y gosododd ei Amcanion Lles gwreiddiol yn 2022. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sefydlu ei Dimau Gweithredol Corfforaethol ac Uwch Arweinyddiaeth o fis Ebrill 2023, sydd wedi cynnwys dau gyfarwyddwr newydd a recriwtio i bedair swydd wag Penaethiaid Gwasanaeth. Rydym hefyd wedi symud ein prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio ymlaen i'r cam nesaf, sef lleihau maint y gofod swyddfa sydd gennym. Cawsom adroddiad cadarnhaol gan Archwilio Cymru ar ein Swyddogaethau Cymorth Corfforaethol ac rydym wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ei argymhellion. Rydym yn

gwneud cynnydd ardderchog gyda'r trefniadau ar gyfer Asesiad Perfformiad Panel ym mis Medi 2024, gan ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae camau gwella a ddynodwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, felly, ar y cyfan, wedi gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw boddhad cyffredinol budd-ddeiliaid gyda'r Cyngor a'i gynlluniau hirdymor cystal ag yr hoffem iddo fod. Mae ein Cynllun Corfforaethol diwygiedig yn cynnal pwyslais clir ar sut y mae'r Cyngor yn gweithio, gan gynnwys gwasanaeth i gwsmeriaid, ymgysylltu a'n perfformiad. Mae'n bwysig ein bod yn dangos gwelliant yn y meysydd hyn ac yn ymateb i ddisgwyliadau ein cwsmeriaid. Y brif her i'r Cyngor yn y misoedd nesaf fodd bynnag fydd sefydlu ei raglen drawsnewid, fydd angen galluogi'r Cyngor i ymateb yn arloesol ac ar y cyd i'r heriau sy'n ei wynebu. Yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol anodd sydd ohoni, fel Cyngor mae'n rhaid i ni adolygu ymrwymiadau a disgwyliadau perfformiad y Cynllun Corfforaethol yn barhaus.

## Cynllunio Ariannol

Mae'r adran hon yn edrych ar ein gwaith cynllunio ariannol, sy'n ymwneud â rheoli ein hincwm a gwariant. Mae trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor wedi profi'n gadarn, ac mae gan y Cyngor gronfa wrth gefn sy'n rhesymol sefydlog, a phrosesau monitro a chynllunio cryf ar waith i reoli pwysau, fel y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r broses o osod y gyllideb, a phroses o osod y gyllideb gyfalaf. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Corfforaethol hefyd wedi rhoi sicrwydd am brosesau rheoli ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud yn y cyfnod hwn i ymateb yn effeithiol i'r pwysau ariannol sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor i geisio gwarchod y rhai mwyaf diamddiffyn cymaint â phosibl. Mae ein hadroddiad cysylltiedig o fis Medi i fis Mawrth yn amlinellu'n fanwl y prosesau a'r penderfyniadau a wnaed o ran gosod y gyllideb am y flwyddyn sydd i ddod. Mae rhai cynigion wedi cael eu harchwilio'n fwy manwl gan ein strwythur Pwyllgor Craffu, sy'n dangos bod y drefn llywodraethu'n effeithiol, ymatebol a heriol. Mae cyllideb 2024 i 25 yn cael ei hystyried fel proses sy'n esblygu yn hytrach na digwyddiad unwaith yn unig ym mis Ionawr. Felly, bydd ymgysylltiad sylweddol ar y gyllideb ar draws y Cyngor, gydag aelodau a chymunedau'n parhau.

## Rheoli Perfformiad

Mae'r adran hon yn edrych ar ein gwaith rheoli perfformiad, sef y strwythurau a'r prosesau sydd gennym ar waith i sicrhau ein bod yn darparu'r hyn a ddwedom y byddem yn ei ddarparu, gan annog cyfranogiad a her gan bob rhan o'r Cyngor, ein haelodau etholedig

a’n preswylwyr. Yn ystod y flwyddyn hon, dechreuodd y Cyngor adrodd ar ei Fframwaith Rheoli Perfformiad Cynllun Corfforaethol newydd, gydag ymgysylltu a mewnbwn rhagorol gan bob rhan o’r sefydliad, ond gan gydnabod bod ychydig o broblemau ar y dechrau a bylchau mewn data i weithio arnynt. Yn dilyn penderfyniad y Cyngor Sir ym mis Chwefror i leihau maint y Cynllun Corfforaethol, ailedrychwyd eto ar y Fframwaith gydag uwch reolwyr ac Aelodau’r Cabinet i helpu i symleiddio ein prosesau adrodd. Yn ein Hunanasesiad y llynedd, roeddem wedi pwysleisio bod maint y fframwaith yn anodd i ni ei reoli, felly mae’r lleihad diweddar wedi cael ei groesawu. Mae trefniadau llywodraethu hefyd wedi cael eu diweddaru i gefnogi’r Cynllun Corfforaethol diwygiedig. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae’r Cyngor wedi parhau â’i ddull hunanasesu, ac mae’r adroddiadau wedi cael eu cyhoeddi ar ein tudalen perfformiad ar y wefan. Fodd bynnag, er mwyn cefnogi anghenion capasiti’r sefydliad, mae’r Cyngor wedi penderfynu cyhoeddi adroddiadau Diweddaru ar Berfformiad y Cynllun Corfforaethol bob chwe mis yn hytrach na bob chwarter. Mae ein Canllawiau Rheoli Perfformiad wedi cael eu diweddaru ar y wefan i adlewyrchu’r holl newidiadau diweddar hyn. Mae’r Cyngor hefyd wedi cyflawni ei drydedd flwyddyn o’i arolwg blynyddol i fudd-ddeiliaid, gyda’r bwriad o ymgysylltu â’n preswylwyr, busnesau, partneriaid, staff a chynghorwyr am sut rydym yn perfformio yn erbyn ein swyddogaethau. Unwaith eto, bu cynnydd yn nifer y rhai a gymerodd ran. Lluniwyd adroddiad gan Archwilio Cymru ar ddefnydd y Cyngor o ddata’n ymwneud â safbwyntiau a chanlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau a sicrhawyd y Cyngor bod y trefniadau presennol yn gadarn ac yn ddigonol o fewn yr adnoddau presennol. Ar ôl cymeradwyo strwythur newydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, dechreuodd y trefniadau ar gyfer rhaglen Herio Perfformiad Gwasanaethau rhwng mis Mai 2023 a mis Mawrth 2024, ac mae Camau Gwella allweddol wedi’u cynnwys yn ein Hadroddiadau Diweddaru ar Berfformiad. Rydym hefyd wedi cytuno ar ein dull o ddarparu rhaglen Herio Perfformiad Gwasanaeth 2024 i helpu’r sefydliad fodloni’r her ariannol bresennol. Yn olaf, rydym yn falch o ddweud ein bod wedi ymdrin â’r pwysau ar gapasiti yn Nhîm Archwilio Mewnol y Cyngor, er bod llwyth gwaith sylweddol wedi bod yn ystod y flwyddyn.

## Rheoli Risg

Mae’r adran hon yn edrych ar ein gwaith rheoli risg, sy’n disgrifio’r dull rydym wedi’i gynllunio i ddynodi, asesu, rheoli a monitro risgiau a chyfleoedd sy’n wynebu’r Cyngor. Rydym wedi parhau i ddarparu ein hadolygiadau chwe mis o’n Cofrestr Risgiau Gorfforaethol a chynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf o fis Chwefror i fis Ebrill eleni. Mae’n dal yn wir nad yw oddeutu hanner ein risgiau corfforaethol (54%) yn gydnaws â Datganiad

Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor. Fodd bynnag, mae hynny i'w ddisgwyl gan fod y gofrestr yn cynnwys risgiau mwyaf difrifol y Cyngor. Mae'n arfer da i adolygu'r Datganiad bob blwyddyn ac yn dilyn ein hadolygiad diweddaraf, penderfynwyd y dylid diwygio rhannau o'r Datganiad i adlewyrchu'r pwysau sy'n gysylltiedig â chostau cynyddol ac amgylchedd economaidd ansicr. Yn ystod y flwyddyn, gydag anogaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cytunwyd y byddem yn dechrau cynnal adolygiadau chwarterol ysgafnach â pherchnogion y risgiau, i gyd-fynd â'r adolygiadau chwe mis a'r adroddiadau blynyddol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## Cynllunio'r Gweithlu

Mae'r adran hon yn edrych ar ein gwaith cynllunio'r gweithlu, sef y broses ar gyfer dadansoddi, rhagweld a chynllunio cyflenwad a galw am weithwyr ac asesu bylchau i sicrhau bod gennym y bobl a'r sgiliau - heddiw ac yn y dyfodol - i ddarparu ein gwasanaethau a chyflawni ein hamcanion strategol. Roedd ein strwythur uwch arweinyddiaeth newydd ar waith yn llawn o fis Tachwedd 2023. Mae hyn wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl ond bydd yn arwain at ail-ddylunio gwasanaethau'n drawsnewidiol, lle mae'r Cyngor ar y 'droed flaen' wrth ddylanwadu ar y galw a'i atal; mewn gwell lle i wneud y mwyaf o gyfleoedd; a chanddo arweinyddiaeth fwy eglur ar faterion pwysig fel newid hinsawdd a'r Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn, bu'n rhaid i'r Cyngor roi arbedion sylweddol ar waith fel ein bod yn gallu mantoli'r gyllideb ar gyfer 2024 i 2025 (a bydd heriau tebyg yn ein hwynebu yn 2025 i 2026). Mae hyn wedi golygu cymryd ystod o gamau yn cynnwys camau i reoli swyddi gwag, lleihau gwasanaethau a rhoi cynllun gadael gwirfoddol ar waith. Bydd y gwaith o gynllunio'r gweithlu'n dechrau yn hydref/gaeaf 2024 a bydd yn canolbwyntio ar gefnogi'r pwysau sy'n ymwneud â'r gyllideb a'i oblygiadau. Cynhelir adolygiad Archwilio Mewnol o'n gwaith cynllunio'r gweithlu cyn diwedd mis Mehefin 2024. Bydd yr adolygiad hwn yn allweddol i sicrhau bod ein hymatebion i recriwtio a dal gafael ar staff yn gywir ac yn effeithiol. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom lansio Polisi Gweithio'n Hyblyg a Rhaglen Gyflwyno i Reolwyr newydd Sir Ddinbych. Mae Strategaeth Pobl newydd yn cael ei datblygu ac mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer arolwg staff, y disgwylir iddo gael ei gynnal yn ystod 2024.

## Asedau

Mae'r adran hon yn edrych ar y datblygiadau diweddaraf yn ymwneud â'n gwaith o reoli ystâd y Cyngor (yn cynnwys adeiladau swyddfa ac isadeiledd priffyrdd sy'n berchen i a/neu'n cael ei reoli gan y Cyngor) ac asedau digidol. Fel y dywedom y llynedd, mae'r

Cyngor yn wynebu heriau sylweddol o ran ei asedau. Mae gennym ni rwydwaith mawr iawn o ffyrdd a phontydd sy'n dirywio bob blwyddyn ac mae angen ymrwymiad ariannol parhaus yn y gyllideb i fynd i'r afael â'r dirywiad hwn, ynghyd â bodloni'r her o fynd i'r afael â datblygu prosiectau mawr fel adnewyddu Pont Llannerch; portffolio mawr o adeiladau i gydymffurfio â'n huchelgais Sero Carbon Net; mwyfwy o angen cefnogi a hwyluso datgarboneiddio wrth gaffael; a mwyfwy o bwysau ar isadeiledd TGCh.  Fodd bynnag, rydym wedi gwneud gwelliannau. Rydym wedi cyflawni ystod o brosiectau i wella effeithlonrwydd ynni adeiladau, yn enwedig adeiladau ysgolion, a lleihau costau cynnal yn yr hirdymor yn ystâd adeiladu annomestig y Cyngor, sy'n gyfrifol am dros 60% o allyriadau carbon y Cyngor. Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein gallu i gynhyrchu ein trydan ein hunain drwy osod dulliau creu ynni adnewyddadwy; gan gyflawni dros megawat o gapasiti ynni adnewyddadwy (1099kWp) eleni drwy bethau fel paneli solar ffotofoltäig ar doeau. Mae ein buddsoddiadau mewn cludiant cyhoeddus gwyrdd, megis drwy'r safle gwefru cerbydau trydan ym maes parcio Gorllewin Stryd Cinmel y Rhyl, yn cynhyrchu llawer o fanteision, ac mae'r safle yn y Rhyl wedi darparu dros 250,000 milltir o gludiant mwy gwyrdd i yrwyr yn ei flwyddyn gyntaf yn unig. Mae gennym weithdrefnau iechyd a diogelwch a diogelwch tân cadarn wedi'u sefydlu o hyd. Byddwn yn canolbwyntio ar Ysgolion Bro a sut mae gwneud y mwyaf o'r rheiny fel asedau dros y flwyddyn nesaf, fel rydym yn ei ddisgrifio dan ein thema dysgu a thyfu. Roedd Adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol  gan Archwilio Cymru ym mis Tachwedd 2023 yn gadarnhaol ar y cyfan, gan nodi bod gan y Cyngor strategaeth glir, ond gwnaed rhai argymhellion fydd yn arwain datblygiad strategaeth newydd o 2025. Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Asedau newydd gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol a bydd yn mynd drwy'r broses ddemocrataidd i gael ei chymeradwyo gan y Cabinet yn haf 2024. Pan fydd y strategaeth yn ei lle, byddwn yn datblygu ac yn cyflawni cynlluniau portffolio i bennu siâp, maint a defnydd asedau yn y dyfodol ar gyfer pob un o bortffolios rheoli asedau'r Cyngor. Mae'r strategaeth a chynlluniau portffolio yn cyd-fynd yn agos â gwaith cynllunio'r gweithlu i sicrhau bod ein hasedau'n cael eu rheoli at y tymor hir, mewn modd sy'n cefnogi ac yn integreiddio gyda'n cynllun gweithlu. Mae hyn yn cael ei ddangos drwy'r prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio, sydd wedi bod yn archwilio capasiti a'r defnydd o swyddfeydd i chwilio am ffyrdd i wneud y mwyaf o'r lle sydd gennym ar draws portffolio'r Cyngor (sydd wedi arwain at gau Caledfryn, Dinbych i staff y Cyngor).

## Caffael

Mae'r adran hon yn edrych ar gaffael. Caffael yw'r broses mae'r Cyngor yn ei defnyddio i fodloni ei anghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn modd sy'n sicrhau gwerth am arian a chanlyniadau da i gymdeithas, diwylliant a'r economi, gan hefyd gyfrannu at ddatgarboneiddio ac adfer natur. Yn ystod blwyddyn ariannol 2023 i 2024, drwy gaffael (yn cynnwys arian grant), gwariodd y Cyngor gyfanswm o £226,978,810 yn prynu nwyddau neu wasanaethau trydydd parti. Mae Sir Ddinbych wedi parhau i flaenoriaethu sicrhau buddion i'r gymuned leol drwy gaffael. Mae £83,426,447 wedi cael ei wario yn Sir Ddinbych (35.2%) ac roedd 56% o'r caffael perthnasol yn cynnwys buddion cymunedol. Bydd trydedd genhedlaeth Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru yn cael ei lansio'n swyddogol ym mis Mai 2024. Rydym wedi bod yn cefnogi gwasanaethau'r Cyngor, busnesau a phartneriaid i baratoi at y newidiadau mewn deddfwriaeth gaffael; i wneud yn siŵr ein bod yn y sefyllfa orau i sicrhau mwy o fuddion lleol. Mae'r Gwasanaeth Caffael yn wasanaeth ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint, a byddwn yn ei adolygu yn ystod y flwyddyn nesaf.